Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Diweddariad Polisi'r UE (EU2012.01):

# Erasmus i Bawb

## Diweddarwyd: 02 Chwefror 2012

## Crynodeb o'r prif bwyntiau yn y cynigion

### Cyflwyniad

Ar 23 Tachwedd 2011 cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ('y Comisiwn') gynigion ar gyfer **Erasmus i Bawb**[1], a fyddai'n cefnogi symudedd a chamau cydweithredu eraill ym maes addysg, hyfforddiant, ieuenctid a chwaraeon yn y cyfnod 2014-2020.

Mae rhaglen Erasmus i Bawb yn uno'r **Rhaglen Dysgu Gydol Oes** gyfredol, y rhaglenni rhyngwladol amrywiol ym maes addysg uwch (e.e. **Tempus** ac **Erasmus Mundus**), a rhaglen **Ieuenctid ar Waith.** Mae hefyd, am y tro cyntaf, yn cynnwys cyfrifoldeb dros gefnogi cydweithredu trawswladol ym maes **chwaraeon.**

Un ysgogiad i foderneiddio'r rhaglen yw ei symleiddio, gyda'r nod o gyflawni arbedion effeithlonrwydd a sicrhau y bydd yn haws i gyfranogwyr posibl gael eu cynnwys yn y rhaglen.

### Ewrop 2020

Nod penodol Erasmus i Bawb yw cyflawni amcanion **Ewrop 2020**, sef prif strategaeth yr UE ar gyfer sicrhau twf doeth, cynaliadwy a chynhwysol. Mae Erasmus i Bawb yn canolbwyntio'n benodol ar dargedau addysg Ewrop 2020, gan gynnwys gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar a chynyddu nifer y myfyrwyr 30-34 oed sy'n cwblhau addysg drydyddol.

### Cyllideb arfaethedig o €17.3 biliwn

Mae cyllideb arfaethedig o **€17.3 biliwn** ar gyfer Erasmus i Bawb (sy'n gynnydd o oddeutu 70% o'i gymharu â'r arian a oedd ar gael yn 2007-2013), a bydd y rhan helaethaf ohoni (dros 95%) yn cefnogi camau gweithredu ym maes addysg, hyfforddiant ac ieuenctid, a chaiff y rhan fwyaf o'r arian ei reoli drwy gamau gweithredu datganoledig gan Aelod-wladwriaethau. Dyrennir cyfran o 1.5 y cant (€240 miliwn) i gamau gweithredu ym maes chwaraeon.

### Addysg, hyfforddiant ac ieuenctid

Ar gyfer y camau gweithredu ym maes addysg, hyfforddiant ac ieuenctid bydd 'enwau brand' newydd, er mwyn gwahaniaethu rhwng grwpiau targed gwahanol y camau amrywiol a gaiff eu cefnogi, gyda dyraniadau arian 'lleiaf' yn cael eu cynnig i bob un o'r rhain:

- Addysg Uwch Erasmus (25 y cant)
- Hyfforddiant Erasmus (17 y cant–mae 2 y cant o hwn ar gyfer addysg oedolion)
- Ysgolion Erasmus (7 y cant)
- Cyfranogiad Ieuenctid Erasmus (7 y cant)

Caiff tri phrif fath o gamau gweithredu eu cynnig ar gyfer addysg, hyfforddiant ac ieuenctid:

- Symudedd Dysgu ar gyfer unigolion (65 y cant o'r gyllideb)

Sy'n cynnwys: (1) Rhaglenni symudedd staff (2) Symudedd myfyrwyr addysg uwch a myfyrwyr addysg a hyfforddiant galwedigaethol (3) Symudedd drwy raddau meistr i fyfyrwyr addysg uwch drwy ddull gwarant benthyciadau newydd, a (4) Symudedd ieuenctid, sy'n cynnwys cynlluniau gwirfoddoli a

---

[1] Mae cynigion Erasmus i Bawb yn cynnwys Rheoliad drafft (y cynnig deddfwriaethol y bydd angen i Senedd Ewrop a Chyngor y Gweinidogion gytuno arno) a gohebiaeth esboniadol i gyd-fynd ag ef .

theithiau cyfnewid ieuenctid (dysgu anffurfiol)

- Cydweithredu er budd arloesi ac arferion da (26 y cant o'r gyllideb)

Sy'n cynnwys: (1) Partneriaethau strategol trawswladol rhwng sefydliadau sy'n ymwneud â gweithgareddau addysg, hyfforddiant ac ieuenctid i rannu eu harferion gorau a datblygu mentrau ar y cyd (2) Partneriaethau trawswladol rhwng busnes a sefydliadau addysg drwy Gynghreiriau Gwybodaeth (ar gyfer addysg uwch) a Chynghreiriau Sgiliau Sector (ar gyfer darparwyr addysg a hyfforddiant galwedigaethol) (3) Systemau cymorth TG gan gynnwys e-Efeillio (4) Cefnogaeth i gapasiti i ddatblygu, i sicrhau integreiddio a chydweithredu rhanbarthol

- Cefnogaeth i ddiwygio polisi (4 y cant o'r gyllideb)

Mae posibiliadau ehangach i weithio gyda'r hyn a elwir yn 'drydydd gwledydd' (hy gwledydd y tu allan i'r UE) gyda'r holl weithgareddau hyn.

## Symleiddio a pherfformiad

Thema arall i'r rhaglen newydd yw symleiddio a moderneiddio dulliau rheoli. Adlewyrchir hyn yn y cam a gymerir tuag at sefydlu un rhaglen ac un ddewislen ar gyfer y camau cefnogi. Fe'i gwelir hefyd yn y dull rheoli arfaethedig ar gyfer y rhaglen.

## Darpariaeth ddirprwyedig: Asiantaeth Genedlaethol

Fel sy'n digwydd gyda rhaglenni cyfredol bydd llawer o'r camau (a'r rhan fwyaf o'r gyllideb) yn cael eu cyflawni drwy ddulliau dirprwyedig gan Aelod-wladwriaethau drwy "asiantaethau cenedlaethol". Mae dwy Asiantaeth Genedlaethol yn y DU ar hyn o bryd ar gyfer y Rhaglen Dysgu Gydol Oes a'r Rhaglen Ieuenctid ar Waith, sef: British Council ac Ecorys. Mae'r cyrff hyn yn gweithredu ledled y DU ac maent wedi cynnal gweithgareddau yng Nghymru i hyrwyddo ymgysylltiad â'r ddwy raglen.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cynnig newid yn y dull gweithredu fel rhan o Erasmus i Bawb: byddai angen i Aelod-wladwriaethau ddynodi un corff ('Asiantaeth Genedlaethol') i roi'r camau "datganoledig" ar waith ar lefel genedlaethol.[2]

Y meysydd a fyddai'n cael eu gweithredu gan yr Asiantaethau Cenedlaethol fyddai: (1) Symudedd dysgu pob unigolyn (ar wahân i symudedd ar gyfer graddau cyfun a'r cynllun gwarantu benthyciadau); (2) cydweithredu er budd arloesi ac arferion da; a (3) gweithgareddau sylfaenol i Gefnogi Diwygio Polisi.

Byddai cyllideb yn cael ei dyrannu i bob Aelod-wladwriaeth ar gyfer y camau gweithredu dirprwyedig hyn. Fel rhan o'r nod o ganolbwyntio ar ganlyniadau, bwriedir gosod meini prawf perfformiad ar gyfer y rhaglen gyfan, sy'n golygu y penderfynir ynghylch 25 y cant[3] o'r dyraniad i'r Asiantaethau Cenedlaethol i gefnogi camau symudedd ar sail 'rhoi'r gyllideb ar waith, nifer yr unigolion sy'n symud a gweithredu rhaglenni gwaith yr Asiantaethau Cenedlaethol'. Byddai'r dyraniad ar gyfer 2014 yn seiliedig ar berfformiad y Rhaglen Dysgu Gydol Oes gyfredol. Byddai'r gyllideb sydd ar ôl yn cael ei dyrannu i'r asiantaethau cenedlaethol ar sail maint y boblogaeth yn bennaf (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd).

## Chwaraeon

Mae tri amcan i'r rhaglen chwaraeon: (1) mynd i'r afael â bygythiadau i chwaraeon sy'n gyffredin i bob gwlad fel rhoi cyffuriau, trefnu gemau o flaen llaw, trais, hiliaeth ac anoddefgarwch; (2) cefnogi llywodraethu da yn y maes a gyrfaoedd deuol athletwyr; a (3) hybu cynhwysiant cymdeithasol, cyfleoedd cyfartal a gweithgarwch corfforol i wella iechyd drwy gymryd rhan mewn chwaraeon. Byddai'r gyllideb yn cael ei defnyddio i roi cymorth i weithgareddau trawswladol gan gynnwys prosiectau cydweithredu, digwyddiadau chwaraeon Ewropeaidd anfasnachol, atgyfnerthu'r dystiolaeth sy'n sail i lunio polisïau, creu capasiti i

[2] Byddai angen i'r cyrff hyn adrodd i'r Comisiwn Ewropeaidd ac i'w Hawdurdod Cenedlaethol eu hunain yn flynyddol.
[3] Mae'r gyfran hon yr un fath â'r gyfran a ddyrannwyd ar gyfer perfformiad sy'n gymwys yn y Rhaglen Erasmus bresennol ar gyfer 2007-2013.

adeiladu sefydliadau chwaraeon a thrafodaethau â rhanddeiliaid Ewropeaidd.

### Amseru a'r broses ddeddfu

Bydd y cynigion drafft yn dilyn 'gweithdrefn ddeddfu gyffredin', sy'n peri ei bod yn ofynnol i Gyngor y Gweinidogion a Senedd Ewrop gytuno ar y testun terfynol. Gallai'r broses gymryd 18-24 mis (neu hyd at hynny o amser) a gallai manylion y cynigion newid yn ystod y trafodaethau hyn.

## Cefndir y cynnig

Bu'r Comisiwn Ewropeaidd yn ymgynghori ar y cynigion ar gyfer rhaglen Erasmus i Bawb gyntaf drwy gynnal ymgynghoriad ar-lein tua diwedd 2010, ac yn ail drwy nifer o gynadleddau, seminarau a chyfarfodydd â rhanddeiliaid a phawb a oedd â diddordeb hyd at fis Ebrill 2011.[4]

Daethpwyd â chwaraeon, drwy Gytuniad Lisbon, o fewn cymhwysedd yr UE, yn benodol o fewn cyd-destun polisi addysg a hyfforddiant (Erthygl 165 o Gytuniad Lisbon)[5].

## Perthnasedd i Gymru

O gofio bod addysg a pholisi ieuenctid yn gymwyseddau datganoledig mae Erasmus i Bawb yn berthnasol iawn i Gymru. O ran y nod o gynyddu nifer y bobl sydd mewn addysg, mae canran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghymru wedi parhau'n gymharol gyson dros y deng mlynedd diwethaf. Dengys ystadegau swyddogol diweddaraf Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2011, a seiliwyd ar ddata o ddiwedd 2010, mai cyfradd bresennol y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yw 11 y cant, a'r gyfradd ar gyfer pobl ifanc rhwng 19 a 24 oed yw 23%.[6]

Mae ystod eang o sefydliadau yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion, colegau addysg bellach, prifysgolion, awdurdodau lleol, cyrff anllywodraethol, a busnesau wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu ffurfiol ac anffurfiol fel rhan o raglenni addysg a symudedd ieuenctid yr UE.

Yn ystod y Trydydd Cynulliad cynhaliodd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ymchwiliad i gyfranogiad Cymru mewn rhaglenni ymchwil, arloesi a dysgu gydol oes yr Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys y Rhaglen Dysgu Gydol Oes a'r Rhaglen Ieuenctid ar Waith.

Mae adroddiad y Pwyllgor yn cynnwys ystadegau manwl ar gyfranogiad Cymru yn y rhaglenni amrywiol yn ystod y blynyddoedd rhwng 2007 a 2010, sy'n dangos:

> ...Ar y cyfan, bu cyfranogiad Cymru yn yr LLP rhwng 2007 a 2010 yn galonogol. Ar gyfer pob un o'r rhaglenni, mae Cymru yn gyfartal â, neu'n perfformio'n well na Lloegr, ac o ran nifer o'r rhaglenni mae'n perfformio'n well na'r Alban (Tranversal a Comenius) a Gogledd Iwerddon (Erasmus). (paragraff 31)[7]

## Safbwynt Llywodraeth y DU

***Cyhoeddodd Llywodraeth y DU Femorandwm Esboniadol ar gynigion Erasmus i Bawb ar 20 Rhagfyr 2011[8]. Mae hwn yn cynnwys cyfeiriadau at safbwynt Llywodraeth Cymru ar y cynigion – a sonnir am y safbwynt hwnnw yn yr adran nesaf. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar farn Llywodraeth y Deyrnas Unedig.***

---

[4] Gweler gwefan **DG Education and Culture**.(Saesneg yn unig)
[5] Gweler gwefan **European Commission Sport**.(Saesneg yn unig)

[6] Datganiad Ystadegol Cyntaf 125/2011, **Cyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cymru**, **Cyfranogiad pobl ifanc mewn Addysg a'r Farchnad Lafur (diwedd blwyddyn 2009 a 2010 (dros dro))**, 27 Gorffennaf 2011, [fel ar 8 Chwefror 2012]
[7] **Cyfranogiad Cymru mewn rhaglenni ymchwil, arloesi a dysgu gydol oes yr UE, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Chwefror 2011.**
[8] **Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU Erasmus for All 17574/11**.(Saesneg yn unig)

Mae Llywodraeth y DU yn cytuno'n fras ag amcanion cyffredinol a llawer o gynnwys y cynigion, gan gynnwys y ffocws ar dair thema flaenllaw, a symleiddio a rhesymoli'r cynigion presennol.

Fodd bynnag, nid yw'n cefnogi'r cynigion o ran y gyllideb, ac mae wedi ymrwymo i leihau cyllideb yr UE (yn gyfan) yn gyffredinol, yn y trafodaethau ehangach ar y Fframwaith Ariannol Amlflwydd ar gyfer 2014-2020[9].

Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU hefyd yn codi cwestiynau ar nifer o bwyntiau eraill yn y cynigion drafft, gan gynnwys sefydlu un asiantaeth genedlaethol – dywed Llywodraeth y DU ei bod yn ffafrio 'hyblygrwydd cenedlaethol' yn hyn o beth. Mae hefyd yn ceisio eglurhad ar sut y byddai benthyciadau ariannol ar gyfer Graddau Meistr Erasmus yn gweithio'n ymarferol, ac yn galw am ailedrych ar unrhyw drothwy lleiaf a bennwyd ymlaen llaw ar gyfer gwahanol fathau o weithgareddau Erasmus a gefnogir (hy ar gyfer ysgolion, ieuenctid, oedolion ac addysg uwch) pe bai newidiadau yn y gyllideb gyffredinol a ddyrennir i Erasmus i Bawb. Yn olaf, ar fater integreiddio'r Rhaglen Ieuenctid i Erasmus i Bawb, mae Llywodraeth y DU yn nodi pryderon Aelod-wladwriaethau eraill ar y mater hwn, a dywed ei bod yn fodlon ystyried y mater hwn cyhyd nad yw'r cam yn effeithio ar unrhyw arbedion effeithlonrwydd y mae modd eu cyflawni drwy integreiddio ieuenctid i un rhaglen fframwaith Erasmus i Bawb.

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei safbwynt ynghylch y cynigion ar gyfer Erasmus i Bawb eto, ond, mae ei safbwynt wedi'i gynnwys ymMemorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU, sy'n nodi:

> The Welsh Government has indicated its strong interest in the 'Erasmus for All' proposal and its intention to contribute its view on the proposal as it proceeds through Council. It also strongly supports the proposal for a new sports programme as an innovative and positive development (paragraph 10)

Yn ei **ymateb** i'r adolygiad o Gyllideb yr Undeb Ewropeaidd (tudalen 21, Ebrill 2008) dywedodd Llywodraeth Cymru:

> ...Mae addysg ar lefel yr UE, drwy brofiadau trawsffiniol, yn ychwanegu gwerth o ran ffyniant drwy gynyddu cyfnewid gwybodaeth rhwng Aelod-wladwriaethau a rhanbarthau, drwy hwyluso masnach a thrwy gynyddu symudedd y llafurlu. Mae hefyd yn gwella ansawdd bywyd drwy helpu pobl i ddeall ei gilydd yn well a thrwy deithiau cyfnewid diwylliannol.
>
> ...Am y rhesymau hyn, cred y Llywodraeth y dylai Rhaglen Dysgu Gydol Oes a Rhaglen Ieuenctid ar Waith yr UE fod yn fwy gweladwy a dylid dyrannu mwy o arian iddynt.

Mae'r un dyheadau â phrif amcanion cynigion 'Erasmus i Bawb' i ystod o bolisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru: o ran cynyddu'r graddau y mae pobl yn cymryd rhan mewn addysg; y pwyslais ar ddysgu gydol oes; dysgwyr yn datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth gywir gan gynnwys sgiliau sylfaenol; gwella sgiliau cyflogadwyedd; a meithrin rhagor o gysylltiadau rhwng addysg, hyfforddiant a busnes. Mae 'Rhaglen Lywodraethu 2011-16' Cymru yn cynnwys 'camau penodol' sydd â'r nod benodol o wella cyfraddau aros mewn addysg ôl-16 oed; gwella canran y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant; cynyddu'r cyfleoedd am brentisiaethau sydd ar gael i bobl ifanc; trawsnewid y sector addysg uwch i 'gefnogi economi Cymru'; a chefnogi'r economi a busnes drwy annog 'cydweithredu rhwng ein prifysgolion a'r prifysgolion gorau y tu allan i Gymru'.

Ceisia cyfres o bolisïau Llywodraeth Cymru fel *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*; y *Strategaeth a Chynllun Addysg Uwch ar gyfer Cymru yn yr Unfed Ganrif ar Hugain*; *Polisi Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2008* i ad-drefnu'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 (gan gynnwys uno addysg bellach); *Polisi Llwybrau* Dysgu 14-19 2004 (a *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009* a'i dilynodd) gyflawni'r amcan a nodwyd, y bydd 'hyfforddiant o ansawdd uchel ar gael i bawb fel eu bod nhw'n gallu ennill y sgiliau cywir i gynyddu cyflogaeth gynaliadwy a

[9] Gweler **Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU 12475/11 15 Gorffennaf 2011**.(Saesneg yn unig)

thwf busnes'. Yn benodol, un o amcanion allweddol y *Polisi Llwybrau Dysgu 14-19* yw sicrhau, erbyn 2015, y bydd 95 y cant o bobl ifanc yn barod am gyflogaeth hyfedr neu addysg uwch erbyn iddynt droi'n 25 oed.

Yn fwy diweddar roedd *Adolygiad Llywodraeth Cymru o Gymwysterau ar gyfer Pobl Ifanc 14 i 19 oed* 2011 yn cynnwys ffocws ar

> ...y gwerth i ddysgwyr o ran paratoi ar gyfer y camau nesaf mewn addysg, cyflogaeth neu hunangyflogaeth, a chael mynediad at y camau hyn, yn ogystal â'r gwerth a roddir ar gymwysterau gan gyflogwyr a sefydliadau addysg uwch.

Mae strategaeth a chynllun gweithredu Llywodaeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2009, *Lleihau Cyfran y Bobl Ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru*, yn canolbwyntio ar y grŵp oedran 16-18 mlwydd ac yn atodol iddo mae Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc 2011, sy'n amlinellu dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran atal plant a phobl ifanc rhag ymddieithrio oddi wrth ddysgu a'u cynorthwyo i ymuno â'r farchnad lafur.

O ran nod 'Erasmus i Bawb' o gynyddu symudedd dysgu unigolion, caiff y cyfrifoldeb dros ymgysylltiad Ewropeaidd a rhyngwladol ym maes addysg ei reoli gan dimau polisi amrywiol drwy adran Llywodraeth Cymru, a'i gydgysylltu gan yr Uned Addysg Ewropeaidd a Rhyngwladol. Darperir arian gan Lywodraeth Cymru hefyd i gefnogi nod y British Council o feithrin cydweithio rhyngwladol, ac yn benodol, hyrwyddo'r dimensiwn rhyngwladol ym maes addysg gyda sefydliadau dysgu yng Nghymru drwy gynyddu cyfranogiad mewn rhaglenni addysg rhyngwladol a chyfrannu at ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc Cymru i fyw mewn byd a marchnad lafur fyd-eang.

Mae'n bosibl y bydd hefyd yn berthnasol i elfen **Cymru, Ewrop a'r byd** o Fagloriaeth Cymru.

## Hynt y cynigion yn sefydliadau'r UE

***Caiff yr adran hon ei diweddaru wrth i'r trafodaethau ym Mrwsel ddigwydd ac wrth i safbwynt swyddogol sefydliadau'r UE ddod yn eglur.***

### Monitro'r cynigion

Gellir dilyn hynt y cynigion drwy broses yr UE o wneud penderfyniadau ar ddwy wefan (bydd y ddau linc yn arwain yn uniongyrchol at gynigion Erasmus i Bawb):

- **Arsyllfa Ddeddfwriaethol Senedd Ewrop**
- **Gwefan Pre-Lex y Comisiwn Ewropeaidd**

Nodyn: bydd y tudalennau hyn yn cynnwys gwybodaeth am y drafodaeth eang ar lefel yr UE, ond ni fydd yn cynnwys gwybodaeth benodol am safbwyntiau/diddordebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar y cynigion. Byddwn yn ymhelaethu ar y pwynt olaf yn yr adrannau isod.

### Senedd Ewrop:

Y pwyllgor fydd yn arwain fydd y **Pwyllgor Diwylliant ac Addysg** (Saesneg yn unig), o dan gadeiryddiaeth **Doris Pack yr ASE o'r Almaen** sydd hefyd wedi'i phenodi'n ***rapporteur*** ar gyfer Erasmus i Bawb. Nid oes yr un ASE o Gymru yn aelod o'r Pwyllgor hwn.

Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn **cyfnewid safbwyntiau** .(Saesneg yn unig) gyda Chomisiynydd yr UE ar 23 Tachwedd. Amlygodd y sesiwn hon y pryderon a oedd yn bodoli ynghylch creu un rhaglen, gan gynnwys integreiddio Ieuenctid ar Waith, pryderon ynghylch dewis yr enw "Erasmus" fel brand, a dileu'r brandiau a sefydlwyd eisoes (hy Leonardo, Socrates, Comenius, Grundtvig). Roedd cefnogaeth i'r blaenoriaethau arfaethedig ac i gynyddu'r gyllideb, ac i gynnwys chwaraeon yn y rhaglen.

### Cyngor y Gweinidogion:

Y **Cyngor Addysg, Ieuenctid, Diwylliant a Chwaraeon** fydd yn gyfrifol am y trafodaethau ffurfiol ar y rheoliad drafft. Yn ystod 2013 Denmarc (am hanner cyntaf y flwyddyn) a Cyprus (am ail hanner y

flwyddyn) fydd yn gyfrifol am Lywyddiaeth Cyngor yr UE.

Bu ymateb pendant i'r cynigion i integreiddio ieuenctid i'r rhaglen newydd, ac mae'r wybodaeth anffurfiol sydd ar gael yn awgrymu bod 15 Aelod-wladwriaeth, gan gynnwys **yr Almaen**, yn dymuno cadw Rhaglen Ieuenctid ar Waith ar wahân.

Nid y DU yw'r unig Aelod-wladwriaeth sy'n pryderu ynghylch y cynnydd arfaethedig yn y gyllideb, er enghraifft rydym yn cael ar ddeall bod Ffrainc hefyd yn gwrthwynebu'r cam hwn.

## Eraill:

Mae **Cymdeithas Prifysgolion Ewropeaidd (EUA) (**Saesneg yn unig) yn croesawu'r cynnydd arfaethedig yn y gyllideb ar gyfer addysg a hyfforddiant, ac mae hefyd yn cefnogi cynigion i symleiddio a moderneiddio camau gweithredu drwy un rhaglen.

Mae'r **Undeb Myfyrwyr Ewropeaidd** (Saesneg yn unig) yn feirniadol o'r camau ar gyfer cyllido benthyciadau, ac mae'n dadlau bod angen rhagor o arian grantiau i gefnogi symudedd myfyrwyr ar draws yr UE.

Mae **Cymdeithas Ewropeaidd Addysg ar gyfer Oedolion (EAEA)** (Saesneg yn unig) yn cefnogi'r cynnydd yn y gyllideb ond mae'n feirniadol o'r cam i ddileu'r rhaglen bwrpasol ar gyfer addysg oedolion (hy Rhaglen Grundtvig 2007-2013).

Mae **SALTO-Youth** (sef rhwydwaith o ganolfannau adnoddau ledled yr UE sy'n cefnogi ymgysylltiad â theithiau cyfnewid ieuenctid yr UE) yn nodi cefnogaeth yr asiantaethau cenedlaethol i barhad Rhaglen Ieuenctid ar Waith ar wahân ar gyfer 2014-2020.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Gregg Jones (**Gregg.Jones@wales.gov.uk**)
Swyddfa'r UE
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
11 Rond Point Schuman (6 ed Llawr)
Brwsel
Gwlad Belg B-1040